Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales



# SWYDD WAG

# Uwch Swyddog Codi Arian

**Llawn amser** (37 awr yr wythnos), cytundeb cyfnod penodol o 18 mis (yn agored i drafodaeth) gyda phosibilrwydd i'w ymestyn.

I ddechrau cyn gynted â phosib.

**Cyflog:** £35,000 pro rata.

**Lleoliad**: Rydym yn dîm cydweithredol sy'n gweithio ledled Cymru, gyda swyddfeydd yn Llanystumdwy a Chaerdydd. Rydym yn gweithio mewn modd hybrid ac mae angen presenoldeb yn un o'r swyddfeydd yn rheolaidd ond gellir cyflawni cyfran fawr o'r rôl hon wrth weithio gartref. Os gallai mynychu'r swyddfa eich atal rhag gwneud cais am unrhyw reswm, anfonwch e-bost atom i drafod eich sefyllfa ymhellach.

**Dyddiad Cau:** Dydd Mawrth, 20 Mehefin, 5.00 pm.

**Cyfweliadau**: wythnos yn dechrau 26 Mehefin.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales



# Cliciwch i ddarganfod mwy am:

Llenyddiaeth Cymru

Gyrfaoedd a buddion staff

Ein Polisi Recriwtio

Ein Haddewid

Rôl yr Uwch Swyddog Codi Arian

Sut i ymgeisio

# Rôl yr Uwch Swyddog Codi Arian

Am y Rôl

Dyma gyfle cyffrous i gymryd rhan flaenllaw yn y gwaith o godi arian a datblygu partneriaethau ar gyfer rhaglenni Llenyddiaeth Cymru, elusen sy'n ceisio creu Cymru lle mae llenyddiaeth yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau.

Mae'r rôl hon yn gyfrifol am gyflawni nodau ein strategaeth codi arian, sy'n hollbwysig i sicrhau bod Llenyddiaeth Cymru yn cael effaith yn ei dri maes blaenoriaeth: **Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb**, **Iechyd a Llesiant**, a'r **Argyfwng Hinsawdd**. Bydd y Prif Swyddog Codi Arian yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol i gyflawni cynlluniau codi arian presennol, a bydd yn gweithio gyda'r tîm creadigol i gynghori a darparu strategaethau incwm addas ar gyfer prosiectau newydd a ddatblygwyd i gyflawni ein Cynllun Strategol ar gyfer 2022-2025.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales



# Rôl yr Uwch Swyddog Codi Arian

Meysydd darparu allweddol:

- Arwain ar geisiadau i ymddiriedolaethau a sefydliadau, codi c. £100k y flwyddyn i gefnogi ein prosiectau gan gynnwys Bardd Plant Cymru, Awduron Llawryfog Lleol a 'Sgwennu'n Well / Writing Well'.
- Cyflawni ein cynllun Rhoddion Unigol newydd wedi'i anelu at unigolion gwerth net uchel, gan feithrin a chynnal perthnasau hirdymor gyda darpar roddwyr trwy ymgyrchoedd a digwyddiadau priodol.
- Sicrhau bod adroddiadau amserol a llwyddiannus yn cael eu cyflwyno i bob rhoddwr, gyda chymorth gan gydweithwyr sy'n gyfrifol am Effaith.
- Sicrhau fod system effeithiol ar waith i gefnogi cynllunio a'n dynesiad at godi arian, gyda chymorth gan y Cydlynydd Gweithrediadau.
- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Gweithredol i reoli'r berthynas barhaus â Chyngor Celfyddydau Cymru, a chefnogi gyda cynllunio strategol yn dilyn canlyniadau Adolygiad Buddsoddi CCC 2024-27 ym mis Medi.
- Cyfrannu at drafodaethau gyda'r tîm creadigol wrth ddatblygu rhaglenni newydd, a chefnogi datblygiad ochr yn ochr gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol, â ffocws ar gynhyrchu incwm neu adennill costau.
- Cefnogi a hwyluso codi arian ar gyfer y sector llenyddiaeth ehangach, gan gynnwys cyd-ysgrifennu ceisiadau am gyllid gyda phartneriaid cymunedol.
- Cyfrannu at drafodaethau'r uwch dîm arwain gan gynnwys datblygiad strategol, cyllid a rhaglennu creadigol.
- Unrhyw dasgau eraill, yn ôl yr angen.

**Yn adrodd i:** Cyfarwyddwr Gweithredol

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales



# Rôl yr Uwch Swyddog Codi Arian

Addasrwydd ar gyfer y rôl

Rydym yn chwilio am rywun sydd â:

- Profiad helaeth o godi arian o ystod amrywiol o ffynonellau.
- Tystiolaeth o godi 6-ffigwr mewn blwyddyn o fewn y sector elusennol.
- Angerdd am lenyddiaeth a'i photensial i ysbrydoli, gwella a chyfoethogi bywydau.
- Sgiliau cyfathrebu cryf, sensitif a chadarnhaol, yn ysgrifenedig ac ar lafar.
- Sgiliau cryf mewn perthynas â rhanddeiliaid, megis cysylltu â rhoddwyr, cyrff allanol a sefydliadau partner.
- Y gallu i feddwl yn greadigol, datrys problemau, bod yn drefnus a blaengynllunio.
- Profiad, a hyder mewn siarad cyhoeddus ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd.

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales



# Ein Polisi Recriwtio

Wrth wraidd Llenyddiaeth Cymru mae ein tîm o staff, ac rydym yn dibynnu arnynt i gyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Cynllun Strategol 2022-25 yn effeithiol. Mae iechyd a llesiant ein tîm yn bwysig i ni ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnal diwylliant iach, cefnogol a chynhwysol, sydd hefyd yn adlewyrchu gwir natur cymunedau cyfoethog ac amrywiol Cymru.

Nod Llenyddiaeth Cymru yw bod yn sefydliad cynhwysol ac rydym wedi ymrwymo i groesawu ymgeiswyr o ystod eang o gefndiroedd. Rydym yn asesu ceisiadau ar gryfder potensial a byddwn yn gweithredu'n gadarnhaol drwy warantu cyfweliad i bob ymgeisydd sy'n cwrdd â gofynion addasrwydd y rôl, ac sy'n adnabod yn ei llythyr cais eu bod heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector llenyddol. Ein nod yw datblygu llenyddiaeth fel ffurf ar gelfyddyd sy'n gynrychioliadol ac yn hygyrch i bawb yng Nghymru. Credwn mai'r ffordd orau o gyflawni'r nod hwnnw yw creu gweithlu amrywiol gyda phrofiadau bywyd amrywiol.

Am ragor o wybodaeth, darllenwch ein Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, 2022-25. Os hoffech ymgeisio am y rôl hon, ond yn ansicr os oes profiad digonol gennych, cysylltwch â ni am sgwrs anffurfiol.

Mae ein fframwaith recriwtio wedi ei ddatblygu fel rhan o raglen Weston Jerwood Creative Bursaries sy'n cefnogi mudiadau celfyddydol yn eu hymdrechion i ehangu eu hagwedd tuag at recriwtio a datblygu talent amrywiol



Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

# Ein Polisi Recriwtio


Fel sefydliad dwyieithog, ble mae mwyafrif ein staff yn siarad Cymraeg, mae agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon. Nid yw'n ofynnol i ymgeiswyr feddu ar unrhyw lefel o rugldер, ac rydym yn darparu cefnogaeth i gydweithwyr ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg.

Rydym yn annog ceisiadau gan unigolion sy'n uniaethu ag un neu fwy o'r datganiadau canlynol:

- Rwy’n perthyn i gymuned neu grŵp ethnig sydd heb gynrychiolaeth deg yn y sector lenyddiaeth ar hyn o bryd.
- Rwy’n anabl neu yn dioddef o salwch hir dymor.
- Rwy’n dod o gefndir incwm isel.

Gwarantir cyfweliad ar gyfer y swydd hon i ymgeiswyr sy'n uniaethu ag un neu fwy o'r datganiadau hyn ac sy’n cwrdd â gofynion addasrwydd y rôl. Rydym yn angerddol dros fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a thangynrychiolaeth yn y celfyddydau a byddwn yn blaenoriaethu profiad byw uwchlaw profiad gwaith.

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales



# Sut i ymgeisio

1. **Darllenwch y swydd ddisgrifiad uchod a'r rhestr o rinweddau** yn ofalus. Yn ogystal, darllenwch **Gynllun Strategol 2022-25 Llenyddiaeth Cymru** **yma** ac edrychwch ar ein gwefan.

2. **Ysgrifennwch lythyr cais* neu greu cais fideo*** yn esbonio **pam** eich bod â diddordeb yn y rôl, a sut yr ydych yn addas ar ei chyfer (e.e., soniwch am eich profiadau, a pha elfennau penodol sy'n eich diddori am y swydd.) Bydd ceisiadau ysgrifenedig a cheisiadau fideo yn cael eu hasesu yn gyfartal. *Uchafswm o 2 dudalen A4, neu fideo 5-munud.

3. Anfonwch y canlynol at post@llenyddiaethcymru.org erbyn **5.00 pm ar ddydd Mawrth, 20 Mehefin 2023.**

- Eich llythyr neu gais fideo;
- Eich **CV** a manylion dau ganolwr** sy'n eich adnabod mewn cyd-destun proffesiynol. Byddwn ond yn cysylltu â chanolwyr ar ôl i gynnig o gyflogaeth gael ei dderbyn;
- Ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llenyddiaeth Cymru wedi ei chwblhau (ar gael yma).

**Uchafswm o 2 dudalen A4

**Beth fydd yn digwydd nesaf?**
Byddwn yn asesu'r ceisiadau ac yn gwahodd ymgeiswyr llwyddiannus i gyfweld dros Teams/Zoom yn ystod **yr wythnos sy'n cychwyn ar 26 Mehefin 2023.** Bydd tri aelod o staff Llenyddiaeth Cymru ar y panel cyfweld. Er mai cyfweliad ffurfiol fydd hwn, byddwn yn sicrhau fod pob ymgeisydd yn gyffyrddus â'r broses ymgeisio. Os yw'r broses gyfweld yn peri gofid neu bryder i chi, rhowch wybod i Claire Furlong, Cyfarwyddwr Gweithredol o flaen llaw fel y gallwn drefnu sgwrs anffurfiol neu sgwrs dros y ffôn/fideo cyn y cyfweliad. Mae croeso i chi gysylltu â ni i drafod y rôl ymlaen llaw, neu i ofyn am ragor o wybodaeth. I siarad â Claire yn uniongyrchol neu i drefnu galwad yn ôl, anfonwch e-bost ati i claire@llenyddiaethcymru.org. Byddwn yn cysylltu â'r holl ymgeiswyr gyda chanlyniad y cyfweliadau erbyn **3 Gorffennaf 2023.**

*Mae Llenyddiaeth Cymru yn elusen gofrestredig sy'n gweithio gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.*